# ADRODDIAD BLYNYDDOL

Chwefror 2016

e-bost: coetirmynydd@aol.com
www.coetirmynydd.co.uk

Dyma 12fed adroddiad blynyddol Coetir Mynydd, sydd yn ymwneud â'r cyfnod 1 Ionawr 2015 hyd 26 Chwefror 2016.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cyfarwyddwyd busnes y cwmni gan Fwrdd a gynhwysai: Tim Radford (Cadeirydd), Jenny Wong (Ysgrifennydd), Christina Allen, Martin Daws, Bryan Dickinson, Gwen Griffiths, Sharon Sweeny, Gabe Wyn a Mike Vitkovitch.

## Cyfarfodydd y Bwrdd

Cynhaliwyd dau gyfarfod llawn o'r bwrdd yn 2015 gyda llawer o gyfarfodydd o'r pum aelod ohono a weithiai ar y cynllun trydan dŵr.

## Difrod stormydd

Cafodd stormydd Rhagfyr 2015 gryn effaith ar Barc yr Ocar. Bu rhannau sylweddol o'r llwybr mewn perygl o'u herydu gan y dŵr a lifai i lawr y rhannau o'r llwybr cyhoeddus islaw giât mochyn Yr Ynys ac islaw'r tro at Fryn Geraint. Bu dargyfeirio'r dŵr yn fodd i leihau'r difrod i'r llwybrau, ond dim ond trwy symud y broblem i fannau eraill, ac mae arnom angen modd gwell o reoli dŵr stormydd.

Cronnodd canghennau a cherrig dan y bompren ar y llwybr cyhoeddus, gan achosi i'r dŵr lifo drosti, a golchi ymaith y cerrig ymyl a rhannau o'r pileri cerrig sych a gynhaliai'r bont. Cliriwyd y rhwystr, ac erbyn hyn llifa'r dŵr dan y bont yn ddi-rwystr.

Mae angen adolygiad llawn o'r angen gwaith atgyweirio i'r llwybr cyhoeddus, gan gynnwys rheoli draeniad dŵr llifogydd.

Mae sawl hen goeden wedi colli canghennau mawrion - nid yn broblem ynddi'i hun - a lle nad ydynt yn achosi perygl neu'n rhwystro'r llwybr fe'u gadewir yn eu lle i barhau'r cylch naturiol. Er hynny, disgynnodd un gangen fawr ar dir fferm gerllaw, a bydd angen ei symud.

## Bioamrywiaeth

'Roeddem wrth ein boddhau o weld bod y gwybedogion brithion wedi dychwelyd yn 2015 ar ôl absenoldeb o ddeng mlynedd.

Cynhaliwyd sawl digwyddiad i archwilio bioamrywiaeth ein hardal yn 2015:

Taith côr y bore bach, ar 13 Mai gyda Chris Allen

Taith ar hyd y traeth ar 14 Mehefin gyda Gabe Wyn

Taith ystlumod ar 28 Awst gyda Sam Dyer

Fel gynt, anfonodd aelodau gopïau o'u ffigyrau ar gyfer arolwg Gwylio Adar yr Ardd (30-31 Ionawr '16) at Bryan ar gyfer ein harchif gynyddol o sylwadau ar adar.

## Beiciau mynydd

Bu llai o ddefnyddio beiciau ers gosod yr arwydd wrth fynedfa'r Ynys. Er hynny mae olion beiciau i'w gweld ar y llwybr bob hyn a hyn. A wnewch chi roi gwybod inni os gwelwch bobl yn beicio yn y goedwig.

## Cynllun trydan dŵr bychan

Gydag arian gan Ynni'r Fro, erbyn mis Mawrth 2015 yr oedd syniadau ar gyfer cynllun trydan dŵr ar y Galedffrwd wedi cyrraedd yr hyn a elwir y cyfnod cyn y cais ar gyfer cynllun pen uchel a allai gynnal generadur 240 cilowat. Ni fu rhagor o ddatblygu oherwydd diffyg arian.

Yn yr hydref, gofynnwyd i CM ddod yn aelod cychwynnol o Gyd Ynni, consortiwm o chwe grŵp ynni cymunedol o Abergwyngregyn, Bethesda, Llanberis a'r Waunfawr. Bydd hyn yn caniatáu inni ddysgu gan y grwpiau sydd eisoes wedi gosod cynllun trydan dŵr (Ynni Anafon) a hefyd i gyfrannu at Gyd Ynni o'n persbectif coetir a bioamrywiaeth.

Cafwyd arian ym mis Tachwedd 2015 i godi diddordeb pobl yr ardal yn y cynllun a gofyn eu barn. Agorwyd cynllun ariannu ynni cymunedol newydd, Ynni Lleol, ym mis Ionawr 2016, ac mae cais yn barod i'w gyflwyno i ddatblygu'r cynllun ar gyfer cyflwyno cais cynllunio.

## Llais y Goedwig

Bu Jenny'n cynrychioli Coetir Mynydd yng Nghynhadledd Flynyddol Llais y Goedwig ar 27-28 Mawrth 2015 yn y Fenni. Ers hynny mae LlyG wedi sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru ar

gyfer aelodau staff rhanbarthol. Sara Wynne-Pari yw'r swyddog Swyddog Meithrin Gallu Coetiroedd newydd Gogledd Cymru, a chafodd Bryan gyfle i gyfarfod â hi yng Ngolygfa Gwydyr ar 25 Chwefror 2016.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

**Dydd Gwener 26 Chwefror 2016 8.30pm**
**Y Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai**

AGENDA

1) Ymddiheuriadau
2) Adroddiad blynyddol
3) Adroddiad ariannol
4) Ethol y bwrdd

5) Cynllun rheoli coetir
   Cynllun 5 mlynedd i'w adnewyddu yn 2016
   Diwedd y cymhorthdal rheoli coetir
   Atgyweirio llwybrau troed
   Archwilio'r argae

6) Datblygu cynllun trydan dŵr bychan
   Ymgynghoriad cymunedol - cymhorthdal Mantell Gwynedd
   Astudiaeth o ddichonoldeb a gwaith dylunio - cymhorthdal Ynni Lleol
   Arolygon gofynnol

7) Cyd Ynni
   Cynnig cyfranddaliadau Ynni Ogwen ac Ynni Padarn Peris
   Cynllun peilot Ynni Lleol
   Cynhadledd Cynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol (CARES) yn Stirling 14-16 Mawrth
   Coed tân fel ynni adnewyddadwy

8) Cynlluniau ar gyfer 2016
   Arolygon Labordai Awyr Agored (OPAL) gydag Ysgol Bodfeurig
   Rhagor o deithiau bioamrywiaeth
   Gwaith tacluso cyffredinol

9) Unrhyw fater arall

---

**Cyd Ynni** – consortiwm o 6 grŵp sy'n bwriadu datblygu ynni cymunedol, sef:

Ynni Anafon (Abergwyngregyn) – wedi bod yn cynhyrchu ers mis Tachwedd 2015
**Ynni Ogwen (Bethesda) - wedi lansio cynnig cyfranddaliadau**
**Coetir Mynydd (Mynydd Llandygai) – cyfnod yr astudiaeth o ddichonoldeb / dylunio**
**Fferm Moelyci (Tregarth) – cyfnod cyn ymgymryd ag astudiaeth o ddichonoldeb**
Ynni Padarn Peris (Llanberis) – wedi lansio cynnig cyfranddaliadau
Antur Waunfawr (y Waunfawr) – cyfnod yr astudiaeth o ddichonoldeb

Mae Cyd Ynni'n rhoi ei gefnogaeth i gynllun peilot Ynni Lleol, ar gyfer Cwmni Gwasanaethau Ynni Cymunedol (CESCO) yn seiliedig ar gynllun trydan dŵr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ardal Bethesda, sy'n cynnwys Mynydd Llandegai.